So what is Meeting of Friends in Wales?

According to 'Quaker faith and practice' MFW is defined as follows:

5.04 **Meeting of Friends in Wales**

Meeting of Friends in Wales has national responsibilities on behalf of Britain Yearly Meeting, to represent and advance the life and witness of Quakers within Wales. The meeting consists of all Friends who live in Wales or who are members in local meetings within Wales. Provision is made for members of other meetings and attenders to be present at meetings as in 4.08. The responsibilities of Meeting of Friends in Wales include:

a. promoting spiritual life and witness, facilitating contact between Friends of all ages, and providing opportunities for training and mutual support for those with special responsibilities, in conjunction with associated area meetings and Quaker bodies;

b. representing Britain Yearly Meeting in Wales, including: the appointment of Friends to serve on Cytûn (Churches Together in Wales) and its committees (see 9.09-9.12), communication with the National Assembly for Wales, and with other public and voluntary organisations in Wales, especially those concerned with social witness, peace and interfaith;

c. encouraging communication from associated area meetings on matters which in their judgement merit interchange of views (see 4.18) including testimonies to the life and service of deceased Friends, discerning whether the latter be forwarded to Yearly Meeting for the benefit of the Society as a whole (see 4.27-4.30);

d. responding to issues which relate to living in a bilingual society, including outreach in Wales and commissioning, translating and publishing Quaker material in the Welsh language;

e. representing Wales to Britain Yearly Meeting, liaising with yearly meeting committees and departments where appropriate.

The Meeting of Friends in Wales will provide information and nominations or appointed representatives to Quaker and other bodies when required. The meeting may communicate by minute with Yearly Meeting through its agenda committee (6.18) and Meeting for Sufferings (7.04), as well as with area meetings which include parts of Wales. It also has the obligation to receive minutes from these bodies.

Felly, beth yw Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru?

Yn ôl ‘Quaker faith and practice’ diffinir ccc fel a ganlyn:

5.05 **Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru**

Mae gan Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru gyfrifoldebau ar ran Cyfarfod Blynyddol Prydain, i gynrychioli ac hyrwyddo bywyd a thystiolaeth y Crynwyr yng Nghymru. Mae'r cyfarfod yn cynnwys pawb o'r Crynwyr sydd yn byw yng Nghymru neu yn aelodau o gyfarfodydd lleol yng Nghymru. Gwneir darpariaeth i aelodau o gyfarfodydd eraill fynychu cyfarfodydd yn unol â 4.08. Mae cyfrifoldebau Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru yn cynnwys:

a. ar y cyd â chyfarfodydd rhanbarth perthnasol a chyrff Crynwrol eraill hybu bywyd a thystiolaeth ysbrydol, hwyluso cyswllt rhwng Cyfeillion o bob oed a chynnig cyfleoedd am hyfforddiant a chyd gefnogaeth i'r rhai sydd â chyfrifoldebau arbennig;

b. cynrychioli Cyfarfod Blynyddol Prydain o fewn Cymru, gan gynnwys: penodi Cyfeillion i weithredu ar Cytûn (Eglwysi Ynghyd yng Nghymru) a'i bwyllgorau (gweler 9.09-9.12), cyfathrebu gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a gyda chyrff cyhoeddus a gwirfoddol eraill yng Nghymru, yn enwedig y rhai sydd yn ymwneud â thystiolaeth gymdeithasol, heddwch ac amlffydd;

c. annog cyfathrebu oddiwrth y cyfarfodydd rhanbarth perthnasol ar faterion sydd, yn eu tyb hwy, yn haeddu cael eu cyd drafod, gan gynnwys tystiolaethau i fywyd a gwasanaeth Cyfeillion ymadawedig, gan ddirnad os dylid anfon rhain at y Cyfarfod Blynyddol er lles y Gymdeithas gyfan;

d. ymateb i faterion sydd yn ymwneud â byw mewn cymdeithas dwyieithog gan gynnwys ymestyn i'r gymuned yng Nghymru a chomisiynu, cyfieithu a chyhoeddi deunydd Crynwrol yn y Gymraeg;

e. cynrychioli Cymru i Gyfarfod Blynyddol Prydain, gan gysylltu â phwyllgorau ac adrannau y cyfarfod blynyddol fel bo'n addas.

Fe fydd Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru yn darparu gwybodaeth ac enwebiadau neu benodiadau i gyrff Crynwrol a chyrff eraill yn ôl y galw. Gall y Cyfarfod gysylltu trwy gofnod â Chyfarfod Blynyddol Prydain trwy ei bwyllgor agenda (6.18) a'r Cyfarfod Dioddefiannau (7.04), ac hefyd â'r cyfarfodydd rhanbarth sy'n cynnwys rhannau o Gymru. Mae hefyd yn ofynnol i'r cyfarfod dderbyn cofnodion gan y cyrff hyn.

Mae'r fersiwn diweddaraf Qfp ar gael ar y wê:
http://www.quakerweb.org.uk/qfp/
dilynwch y cysylltiadau at "Quaker bookshop" i gael copi caled.